# Siarad am Gludiant i'r Ysgol

## Adolygiad Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) (2008) 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Cryno



# Helo

## Mae cludiant i'r ysgol yn rhan bwysig o addysg yng Nghymru

Mae llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn defnyddio cludiant i'r ysgol i gyrraedd yr ysgol a gadael yr ysgol.



Mae Llywodraeth Cymru am i gludiant i'r ysgol fod yn ddiogel ac o ansawdd da.

Mae gennym ni lawer o gludiant ysgol da ledled Cymru.

## A oes angen i gludiant i'r ysgol newid?

Mae rhai pethau mae angen eu gwella. Yn 2020, penderfynwyd edrych ar sut roedd y gyfraith yn cael ei dilyn a darganfod beth oedd yn bwysig i bobl.

## Adolygiad i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu

Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu hanfon at Weinidogion Cymru. Bydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau am ddyfodol cludiant i'r ysgol.

## Ynglŷn â Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) (2008)

Yn ôl yn 2008, fe wnaethom basio cyfraith o'r enw Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) (2008).

Mae'n nodi rheolau a safonau fel bod gan bob dysgwr gludiant diogel i'r ysgol. Mae rhai o'r rheolau hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddysgwyr eu hawl i gludiant am ddim sy'n diwallu eu hanghenion nawr.

## Gyda phwy y gwnaethom ni siarad

Cawsom adborth gan y canlynol:

- dysgwyr
- rhieni
- athrawon
- awdurdodau lleol
- cwmnïau trafnidiaeth, a phartneriaid eraill.



**Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthych chi am yr hyn ddywedodd pobl wrthym ni a'r hyn rydym ni am ganolbwyntio arno wrth symud ymlaen.**

# Ynglŷn â'r adolygiad

## Lle mae pethau'n sefyll

Mae cludiant i'r ysgol yn rhan bwysig o sicrhau bod gan bawb fynediad at addysg.

**Mae cludiant i'r ysgol yn rhad ac am ddim i ddysgwyr 5-16 mlwydd oed sydd:**

- **yn byw o leiaf 2 filltir o'r ysgol gynradd agosaf**
- **yn byw o leiaf 3 milltir o'r ysgol uwchradd agosaf**
- **yn byw mewn teulu sydd ag incwm isel.**



## Rhai ffeithiau

Mae **108,455** o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol mewn cerbyd bob dydd yng Nghymru

Byddai **65%** o ddisgyblion yn gallu cael cludiant ysgol os oedden nhw am gael hynny

Mae **6,022** yn defnyddio gwasanaethau bws lleol

Mae gan **9,288** Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae **3,500** ag anghenion arbennig ac yn cael cludiant ysgol gyda gyrrwr ymroddedig maen nhw'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo

Mae cludiant i'r ysgol yn lleihau traffig a llygredd

Mae **£106 biliwn** y flwyddyn yn mynd i awdurdodau lleol ar gyfer cludiant i'r ysgol. Mae awdurdodau lleol yn dewis sut i ddefnyddio'r arian hwn

Mewn ardaloedd trefol, gall gostio hyd at **£200** y dysgwr

Mewn ardaloedd gwledig, gall gostio hyd at **£400** y dysgwr

## Amser ar gyfer adolygiad

Mae llawer wedi newid dros 13 mlynedd. Mae cyfreithiau a pholisïau newydd wedi newid y ffordd rydym ni'n gweithio ac yn gwneud penderfyniadau.

**Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)** — yn gwarchod pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu.

**Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011** — yw ein hymrwymiad cyfreithiol i hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** — yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl am sut mae'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud nawr yn effeithio'r dyfodol.


**Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** — cynllun i leihau effeithiau tlodi ar deuluoedd a gwneud yr holl drafnidiaeth yn haws i'w defnyddio.

# Y sgwrs

## Yr hyn y gwnaethom ni siarad amdano

Fe wnaethom wirio:

- a oedd awdurdodau lleol yn dilyn y rheolau
- a oedd dysgwyr yn cael y cludiant roedden nhw ei angen
- y trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr ôl-16
- y trefniadau teithio ar gyfer addysg feithrin
- y trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr ADY hŷn
- os oes angen newid y rheol 2 filltir neu 3 milltir, a phethau eraill.



## Adborth

### Rheolau 2 filltir a 3 milltir

Fe wnaeth 60% o bobl godi materion yn ymwneud â'r rheolau 2 filltir a 3 milltir.

Fe wnaeth rhai awdurdodau lleol leihau'r rheolau pellter ar gyfer dysgwyr, ac ni wnaeth eraill.

### Dysgwyr ôl-16

Nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 sy'n mynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol:

- yn darparu cludiant i'r ysgol yn rhad ac am ddim i ddysgwyr ôl-16
- yn darparu cludiant i'r ysgol yn rhad am ddim i ddysgwyr hŷn ag ADY.

### Dan 5 mlwydd oed

Nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi cludiant rhad ac am ddim i blant dan 5 mlwydd oed. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig teithio i ysgolion meithrin.

### Ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd

Mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi teithio am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd hyd yn oed pan nad dyma'r ysgol agosaf sydd ar gael, ac nid oedd eraill yn gwneud hynny.



## Dywedodd pobl fod angen i ni wneud y canlynol:

- diweddaru'r canllawiau
- rhoi mwy o wybodaeth i rieni am eu cyfrifoldebau a'r hyn sy'n digwydd pan fydd plant yn rhannu eu hamser rhwng dau gartref
- rhoi mwy o arweiniad ar gludiant i fyfyrwyr 6ed dosbarth sy'n rhannu eu hamser rhwng yr ysgol a choleg
- gwella rhwydweithiau, parcio mewn ysgolion a seilwaith
- sicrhau bod y gyfraith a'i chanllawiau yn glir, fel bod penderfyniadau'n haws i'w gwneud
- rhoi mwy o gymorth i awdurdodau lleol
- ystyried heriau a manteision rhoi cludiant i'r ysgol i blant oed meithrin
- ystyried costau newid.

# Opsiynau i Weinidogion Cymru

## Opsiwn 1

**Aros a bwrw ymlaen â newidiadau i'r Mesur yn ystod Tymor nesaf y Senedd.**

Mae Tymor y Senedd yn 5 mlynedd. Cynhelir yr etholiad nesaf yn 2026.

## Opsiwn 2

**Symud ymlaen a chysylltu newidiadau i Fesur Teithio Dysgwyr (Cymru) (2008) â gwaith arall rydym ni'n ei wneud:**

- i wella trafnidiaeth a'i gwneud yn fwy ecogyfeillgar
- i ddiwallu anghenion dysgwyr hyd at 18 mlwydd oed
- i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY
- a chynlluniau eraill i ddelio â thlodi a gwella bywyd ledled Cymru.

## Rydym ni'n argymell Opsiwn 2.
## Dydyn ni ddim eisiau aros tan 2026.

**Mae gwneud dim yn arwain at y risgiau canlynol:**

- mwy o ddysgwyr yn cael eu trin yn annheg
- codau a chanllawiau yn mynd yn hen
- awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anoddach gwneud penderfyniadau
- mwy o niwed i'r amgylchedd.

## Y camau nesaf

Bydd Gweinidogion yn penderfynu pa opsiwn maen nhw am ei ddewis.

Mae newid yn cymryd amser. Pa bynnag opsiwn y byddan nhw'n ei ddewis, byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth a darganfod beth sy'n bwysig i bobl ledled Cymru.

**Diolch am ddarllen hwn!**

